

Canllawiau i Gofrestryddion Arbenigol ar Dadolaeth/Mabwysiadu

Proses

1. Mae'r Cofrestrydd Arbenigol Meddyg Teulu yn hysbysu'r Goruchwyliwr Arbenigol/sefydliad lletyol am fwriadau Tadolaeth.
 - i. Rhaid i'r Cofrestrydd Arbenigol Meddyg Teulu roi cymaint o rybudd ag y bo modd am ddyddiadau absenoldeb a gynigir (o leiaf 28 diwrnod), neu'r hyn sy'n rhesymol ymarferol.

2. Mae'r Cofrestrydd Arbenigol Meddyg Teulu yn llenwi ffurflen Cais am Absenoldeb Tadolaeth, Atodiad F y Polisi Absenoldeb Mamolaeth, Tadolaeth, Mabwysiadu a Rhiant, a roddir i Reolwr y Practis.
 1. Bydd y Sefydliad Lletyol yn rhoi gwybod i NWSSP am unrhyw geisiadau absenoldeb tadolaeth.
 2. O ran Absenoldeb Tadolaeth, dylid dychwelyd ffurflen Atodiad F i dîm Gweithlu Meddygol NWSSP ar ddiwedd y 15^{fed} wythnos cyn yr wythnos disgwyl esgor;
 3. O ran Absenoldeb Tadolaeth i Fabwysiadu, dylid dychwelyd ffurflen Atodiad F o fewn 7 diwrnod o wybod am blentyn addas i'w fabwysiadu neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol;
 4. Bydd y Cofrestrydd Arbenigol Meddyg Teulu yn cyflwyno ffurflen MATB1 i dîm Gweithlu Meddygol NWSSP gyda ffurflen Atodiad 1;

- 3 Bydd tîm Gweithlu Meddygol NWSSP yn anfon llythyr cadarnhad at y Cofrestrydd Arbenigol Meddyg Teulu. Dylid anfon copi i'r sefydliad lletyol a'r adran gyflogres.
-